Rhaid yw diolch hefyd i Mr Richard Jenkins am ei lafur gyda'r peldroedwyr, a gwerthfawrogwn gymorth y Cwnstabl David M. Jones gyda'r Rygbi. Yn ein llawenydd onid teg yw cydnabod cyfraniad y bobl garedig hyn a fu'n gymorth i ni i lwyddo?

Pan glywodd y merched am lwydd iant ysgubol y bechgyn roeddynt hwythau'r un mor benderfynol o ennill y cwpan hoci i ysgolion y cylch. Ar faes Penglais y buont hwy'n chwarae ac ar ddiwedd y dydd roedd y gwenau a oedd ar wynebau'r genethod yn dweud yn eglur ddigon mai hwy oedd y pencampwyr ac mai yn eu meddiant hwy yr oedd y cwpan. Llongyfarchiadau i chwithau ferched. Rydym yn falch iawn ohonoch.

Merch arall a ddaeth a chlod i'r ysgol yw Bethan Evans. Yn y ras traws-gwlad a drefnwyd gan yr Urdd ac a ddenodd gystadleuwyr o Gymru benbaladr enillwyd y lle blaenaf yn y ras i ferched o dan unarddeg oed ganddi hi. Eto'n y gystadleuaeth a drefnwyd gan Wyl Aberystwyth gwelwyd Bethan yn dod i mewn yn gyntaf yn y ras i ferched yn y safonau uchaf yn yr ysgolion cynradd. Llawenhawn yn eich llwyddiant Bethan a dymunwn y gorau i chwi i'r dyfodol. Llongyfarchion i Louise Collins a Nicola Richards am wneud gwaith arbennig o dda yn y ras i rai o dan ddeg oed.